



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 3114 (Cy.234)

2005 No. 3114 (W.234)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**SOCIAL CARE,
WALES**

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

**CHILDREN AND YOUNG
PERSONS, WALES**

Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Ffioedd Rhagnodedig)
(Mabwysiadu gydag Elfen Dramor)
(Cymru) 2005

Local Authorities (Prescribed Fees)
(Adoptions with a Foreign
Element) (Wales) Regulations
2005

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn galluogi awdurdodau lleol i godi am gyfleusterau a ddarperir mewn amgylchiadau lle byddai codi am wasanaethau yn cael ei wahardd fel arall o dan adran 95 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Mae'r Rheoliadau yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 30 Rhagfyr 2005.

These Regulations enable local authorities to charge for facilities provided in circumstances in which charging would otherwise be prohibited under section 95 of the Adoption and Children Act 2002. The Regulations apply in relation to Wales and come into force on 30 December 2005.

Mae rheoliad 3 yn ymwneud â chyfleusterau sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol ynglŷn â mabwysiadu plant sydd yn arfer preswyllo y tu allan i Ynysoedd Prydain, yn unol â Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 a Rheoliadau Mabwysiadu gydag Elfen Dramor 2005. Caiff awdurdod lleol godi ffi am ddarparu cyfleusterau o'r fath ar gyfer person sy'n dymuno mabwysiadu plentyn o'r fath neu ar gyfer person sydd wedi mabwysiadu plentyn o'r fath. Rhaid i'r ffi fod yn rhesymol a bod wedi'i chyfyngu i'r costau a'r treuliau a dynnwyd gan yr awdurdod lleol wrth ddarparu'r cyfleusterau. Rhaid iddi beidio â chynnwys unrhyw elfen sy'n ymwneud ag unrhyw adolygiad o ddyfarniad o gymhwyster o'i eiddo ar addasrwydd darpar fabwysiadydd i fabwysiadu plentyn.

Regulation 3 concerns facilities provided by local authorities in relation to the adoption of children habitually resident outside the British Islands, in accordance with the Adoption Agencies (Wales) Regulations 2005 and the Adoptions with a Foreign Element Regulations 2005. A local authority may charge a fee for providing such facilities to a person who wishes to adopt such a child or to a person who has adopted such a child. The fee must be reasonable and limited to the local authority's costs and expenses incurred in providing the facilities. It must not include any element relating to any review of its qualifying determination regarding the suitability of a prospective adopter to adopt a child.

2005 Rhif 3114 (Cy.234)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Ffioedd Rhagnodedig)
(Mabwysiadu gydag Elfen Dramor)
(Cymru) 2005

Wedi'u gwneud

8 Tachwedd 2005

Yn dod i rym

30 Rhagfyr 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo dan adran 9, 11(2) a (3), 140(7) ac (8) a 144(2) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(1), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ffioedd Rhagnodedig) (Mabwysiadu gydag Elfen Dramor) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 30 Rhagfyr 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "awdurdod tramor perthnasol" ("*relevant foreign authority*") yw person y tu allan i Ynysoedd Prydain, sy'n cyflawni swyddogaethau yn y wlad lle mae'r plentyn, neu lle mae'r darpar fabwysiadydd, yn arfer preswyllo, ac sy'n cyfateb i swyddogaethau asiantaeth fabwysiadu fel a ddiffinnir gan adran 2(1) o'r Ddeddf neu i swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o ran mabwysiadu gydag elfen dramor;

(1) 2002 p. 38.

2005 No. 3114 (W.234)

**SOCIAL CARE,
WALES**

**CHILDREN AND YOUNG
PERSONS, WALES**

Local Authorities (Prescribed
Fees) (Adoptions with a Foreign
Element) (Wales) Regulations
2005

Made

8 November 2005

Coming into force

30 December 2005

The National Assembly for Wales in exercise of the powers conferred upon it by sections 9, 11(2) and (3), 140(7) and (8) and 144(2) of the Adoption and Children Act 2002(1) hereby makes the following Regulations:

Citation, commencement and application

1.-(1) These Regulations may be cited as the Local Authorities (Prescribed Fees) (Adoptions with a Foreign Element) (Wales) Regulations 2005 and are to come into force on 30 December 2005.

(2) These Regulations apply only in relation to Wales.

Interpretation

2. In these Regulations-

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Adoption and Children Act 2002;

"the Agencies Regulations" ("*Rheoliadau'r Asiantaethau*") means the Adoption Agencies (Wales) Regulations 2005(2);

"the Foreign Element Regulations" ("*y Rheoliadau Elfen Dramor*") means the Adoptions with a Foreign Element Regulations 2005(3); and

(1) 2002 c. 38.

(2) S.I.2005/1313 (W.95).

(3) S.I. 2005/392.

ystyr "y Ddeddf" (*"the Act"*) yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

ystyr "Rheoliadau'r Asiantaethau" (*"the Agencies Regulations"*) yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(1);ac

ystyr "y Rheoliadau Elfenn Dramor" (*"the Foreign Element Regulations"*) yw Rheoliadau Mabwysiadu gydag Elfenn Dramor 2005(2).

Pŵer i godi am gyfleusterau sy'n cael eu darparu sy'n ymwneud â mabwysiadu gydag elfenn dramor

3.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo cyfleusterau(3) yn cael eu darparu gan awdurdod lleol yng Nghymru mewn cysylltiad â-

- (a) mabwysiadu plentyn y daethpwyd ag ef i mewn i'r Deyrnas Unedig at y diben o'i fabwysiadu, neu
- (b) mabwysiad Confensiwn(4), mabwysiad tramor(5) neu unrhyw fabwysiad arall sy'n cael ei wneud o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan i Ynysoedd Prydain.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), caiff awdurdod lleol godi ffi ar bersonau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) am ddarparu'r cyfleusterau y cyfeirir atynt ym mharagraff (4).

(3) Y personau y ceir codi ffi arnynt yw-

- (a) darpar fabwysiad; neu
- (b) mabwysiad.

(4) Y cyfleusterau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) yw-

- (a) cyfleusterau a ddarperir yn unol â Rhan 4 o Reoliadau'r Asiantaethau i unrhyw berson sy'n dod o fewn rheoliad 3(3) mewn cysylltiad â mabwysiadu plentyn sydd i'w ddwyn i'r Deyrnas Unedig ar gyfer mabwysiad, mabwysiad tramor neu unrhyw fabwysiad a gyflawnir o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan i Ynysoedd Prydain ac eithrio:
 - (i) darparu cwnsela nad yw'n cael ei ddilyn gan gais ysgrifenedig, a gafwyd gan awdurdod lleol, am asesiad o addasrwydd i fabwysiadu plentyn sy'n arfer preswyllo y tu allan i Ynysoedd Prydain; a

"relevant foreign authority" (*"awdurdod tramor perthnasol"*) means a person, outside the British Islands, performing functions in the country in which the child is, or in which the prospective adopter is, habitually resident, which correspond to the functions of an adoption agency as defined by s2(1) of the Act or to the functions of the Secretary of State in respect of adoptions with a foreign element.

Power to charge for facilities provided in connection with adoptions with a foreign element

3.-(1) This regulation applies where facilities(1) are provided by a local authority in Wales in connection with-

- (a) the adoption of a child brought into the United Kingdom for the purpose of adoption, or
- (b) a Convention adoption(2), an overseas adoption(3) or any other adoption effected under the law of a country or territory outside the British Islands.

(2) Subject to paragraph (5), a local authority may charge a fee to persons referred to in paragraph (3) for providing the facilities referred to in paragraph (4).

(3) The persons to whom a fee may be charged are-

- (a) a prospective adopter; or
- (b) an adopter.

(4) The facilities referred to in paragraph (2) are-

- (a) facilities provided in accordance with Part 4 of the Agencies Regulations to any person falling within regulation 3(3) in connection with the adoption of a child to be brought into the United Kingdom for the purpose of adoption, an overseas adoption or any adoption effected under the law of a country or territory outside the British Islands except:
 - (i) the provision of counselling which is not followed by receipt by a local authority of a written application for an assessment of suitability to adopt a child who is habitually resident outside the British Islands ; and

(1) O.S.2005/1313 (Cy.40)

(2) O.S. 2005/392.

(3) Rhaid dehongli "facilities" yn unol ag adran 3 o'r Ddeddf.

(4) Diffinnir "convention adoption" gan adran 66(1)(c) o'r Ddeddf.

(5) Diffinnir "overseas adoption" gan adran 87(1) o'r Ddeddf.

(1) "Facilities" is to be interpreted in accordance with section 3 of the Act.

(2) "Convention adoption" is defined by section 66(1)(c) of the Act.

(3) "Overseas Adoption" is defined by section 87(1) of the Act.

- (ii) darparu gwybodaeth cyn i awdurdod lleol gael cais am asesiad o addasrwydd i fabwysiadu plentyn sy'n arfer preswyllo y tu allan i Ynysoedd Prydain.
- (b) cyfleusterau sy'n cael eu darparu wrth gyflawni unrhyw swyddogaeth a osodir ar awdurdod lleol gan y Rheoliadau Elfen Dramor neu'n unol â hwy neu gan y Ddeddf fel y cafodd ei hamrywio neu ei chymhwyso gan y Rheoliadau Elfen Dramor ac eithrio:
- (i) cyfleusterau a ddarperir yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau Elfen Dramor; a
 - (ii) darparu cwnsela nad yw'n cael ei ddilyn gan gais ysgrifenedig, a gafwyd gan awdurdod lleol, am asesiad o addasrwydd i fabwysiadu plentyn, yn unol â rheoliad 14(1) o'r Rheoliadau Elfen Dramor; a
 - (iii) darparu gwybodaeth cyn i awdurdod lleol gael cais ysgrifenedig am asesiad o addasrwydd i fabwysiadu plentyn, yn unol â rheoliad 14(1) o'r Rheoliadau Elfen Dramor;
 - (iv) darparu gwybodaeth i'r darpar fabwysiadydd, cyfarfod â'r darpar fabwysiadydd neu ddarparu cwnsela i'r darpar fabwysiadydd yn unol â rheoliad 19(2) o'r Rheoliadau Elfen Dramor; a
 - (v) cyflwyno adroddiad yn unol â rheoliad 29(2) o'r Rheoliadau Elfen Dramor.
- (c) adroddiad a gyflwynir i awdurdod tramor perthnasol pan na fo'r adroddiad yn ofyniad gwneud mabwysiad Confensiwn neu fabwysiad tramor o dan gyfraith gwlad dramor lle mae'r plentyn yn arfer preswyllo.
- (5) Rhaid i'r ffi-
- (a) fod yn rhesymol a pheidio â bod yn fwy na'r costau a'r treuliau a dynnwyd yn briodol gan yr awdurdod lleol wrth ddarparu'r cyfleusterau; a
 - (b) beidio â chynnwys unrhyw elfen ar gyfer costau a threuliau a dynnwyd gan yr awdurdod lleol mewn cysylltiad â:
 - (i) cwynion a wnaed ynglŷn ag unrhyw agwedd ar Wasanaeth Mabwysiadu'r awdurdod lleol;
 - (ii) sylwadau a gyflwynir i'r awdurdod lleol yn unol â rheoliad 28 o Reoliadau'r Asiantaethau; neu
 - (iii) adolygiad o ddyfarniad o gymhwyster o fewn ystyr adran 12 o'r Ddeddf.
- (ii) the provision of information prior to receipt by a local authority of an application for an assessment of suitability to adopt a child who is habitually resident outside the British Islands.
- (b) facilities provided in the discharge of any function imposed on a local authority by or in accordance with the Foreign Element Regulations or by the Act as modified or applied by the Foreign Element Regulations; except:
- (i) facilities provided in accordance with regulation 5 of the Foreign Element Regulations; and
 - (ii) the provision of counselling which is not followed by receipt by the local authority of a written application for assessment of suitability to adopt a child, in accordance with regulation 14(1) of the Foreign Element Regulations; and
 - (iii) the provision of information prior to receipt by a local authority of a written application for an assessment of suitability to adopt a child, in accordance with regulation 14(1) of the Foreign Element Regulations;
 - (iv) the provision of information to the prospective adopter, meeting with the prospective adopter or provision of counselling to the prospective adopter in accordance with regulation 19(2) of the Foreign Element Regulations; and
 - (v) the submission of a report in accordance with regulation 29(2) of the Foreign Element Regulations.
- (c) the submission of a report to a relevant foreign authority when the report is not a requirement for the making of a Convention adoption or overseas adoption under the law of the foreign country in which the child is habitually resident.
- (5) The fee must-
- (a) be reasonable and not exceed the local authority's costs and expenses properly incurred in providing the facilities; and
 - (b) not include any element in respect of costs and expenses incurred by the local authority in connection with:
 - (i) complaints made about any aspect of the local authority's Adoption Service;
 - (ii) representations submitted to the local authority in accordance with regulation 28 of the Agencies Regulations; or
 - (iii) a review of a qualifying determination within the meaning of section 12 of the Act.

(6) Rhaid i'r awdurdod lleol, ar gais rhesymol y person y codir arno, ddarparu manylion am y dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ffi.

(6) The local authority, at the reasonable request of the person charged, must provide details of the method by which the fee was calculated.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

8 Tachwedd 2005

8 November 2005

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

2005 Rhif 3114 (Cy.234)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Ffioedd Rhagnodedig)
(Mabwysiadu gydag Efen Dramor)
(Cymru) 2005

2005 No. 3114 (W.234)

**SOCIAL CARE,
WALES**

**CHILDREN AND YOUNG
PERSONS, WALES**

Local Authorities (Prescribed Fees)
(Adoptions with a Foreign
Element) (Wales) Regulations
2005

© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W155/11/05

ON